Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Rhaglen Sylfaen

## Manyleb y Rhaglen

Mae’r fersiwn hon o’r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall

Cyhoeddwyd ym mis Mai 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ....3
2. Diben y Rhaglen ....3
3. Trosolwg o Ddarparu ....3
4. Proffil Dysgwyr ....3
5. Cynnwys y Rhaglen ....4
   - Craidd ....4
   - Prif Gymhwyster ....4
   - Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant (CLIF) ....4
6. Gofynion Cyflwyno Data ....5
   - Cod y Rhaglen ....5
7. Monitro a Deilliannau Dysgu ....5
   - Dull Monitro ....5
   - Cydymffurfio â Manylebau'r Rhaglen ....5
   - Deilliannau Dysgu ....5
   - Profion Archwilio ....5
8. Manylion Cyswllt ....6

## 1. Cyflwyniad

Mae'r fanyleb rhaglen hon yn nodi'r model darparu ar gyfer y Rhaglen Sylfaen. Mae'n darparu trosolwg o'r dibenion a'r deilliannau ynghyd â'r elfennau sy'n rhan o'r Rhaglen Sylfaen; a manylion y gofynion cyflwyno data i alluogi Medr i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a'r deilliannau dysgu.

Mae'r Fanyleb hon hefyd yn rhan o'r Cytundeb rhwng Sefydliadau a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido'r Rhaglen Sylfaen. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod y modd y darperir y Rhaglen Sylfaen yn ymlynu wrth y fanyleb rhaglen hon.

## 2. Diben y Rhaglen

Rhaglen bontio un flwyddyn yw'r Rhaglen Sylfaen sydd wedi'i bwriadu i alluogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cymhleth i bontio i mewn i addysg brif ffrwd. Mae'n debygol y bydd dysgwyr naill ai wedi bod allan o addysg a/neu hyfforddiant neu wedi bod yn dilyn cwricwlwm unigryw a/neu wedi'i addasu.

Mae'r Rhaglen yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau i gael mynediad at raglen alwedigaethol, ymgysylltu â hi a'i chwblhau'n llwyddiannus yn y ddarpariaeth brif ffrwd.

## 3. Trosolwg o Ddarparu

Gan bod y Rhaglen Sylfaen wedi'i bwriadu i ganolbwyntio ar yr unigolyn, gallai'r model darparu fod yn wahanol i ddysgwyr unigol. Disgwylir y bydd y ddarpariaeth yn cynyddu trwy gydol y flwyddyn gan gyrraedd penllanw mewn rhaglen ddysgu amser llawn. Disgwylir hefyd i ddysgwyr fewnlenwi mewn sesiynau prif ffrwd galwedigaethol priodol yn Nhymor 3 yn barod ar gyfer y mis Medi canlynol.

I'w gwneud yn bosibl ei darparu mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mae'r Rhaglen wedi'i bwriadu ar gyfer meintiau dosbarthiadau llai o oddeutu 8-10 dysgwr. Dylai fod gan ddysgwyr ystafell ddosbarth sy'n ganolfan iddynt gyda mynediad at fan tawel i sicrhau cynefindra a'r gallu i fod yn hyblyg yn seiliedig ar anghenion dysgwyr.

## 4. Proffil Dysgwyr

Rhaid i sefydliadau ymlynu wrth y meini prawf Cymhwystra Dysgwyr a geir yn y Fframwaith Cyllido Ôl-16.

Ni fydd dysgwyr yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gael mynediad at y cwricwlwm prif ffrwd; fodd bynnag, nid ydynt yn uniaethu â'r arlwy Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS). Bydd ar ddysgwyr angen lefel uchel o gymorth bugeiliol a byddant yn cael budd o'r dulliau Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad (RARPA) mewn Sgiliau Byw'n Annibynnol.

Mae proses asesiad sylfaenol effeithiol, sy'n ystyried anghenion, galluoedd a dyheadau dysgwyr, yn allweddol i sicrhau addasrwydd y ddarpariaeth. Rhaid i'r asesiad sylfaenol dynnu hefyd ar wybodaeth a ddarparwyd gan y lleoliad addysg blaenorol gan gynnwys dogfennau statudol, y dysgwr, a rhieni/gofalwyr (lle y bo'n briodol). Gall hefyd ystyried

gwybodaeth a ddarparwyd gan Wasanaethau Plant ac Oedolion a/neu'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Rhaid i'r holl ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar Raglen Sylfaen, sydd â hawl statudol i Gynllun Datblygu Unigol, fod ag un o fewn y cyfnod o amser cytunedig i gael eu cofrestru ar y rhaglen.

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Tanategir y Rhaglen gan ddull darparu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gydnabod bod dysgu ac addysgu'n fwyaf effeithiol pan ydynt yn seiliedig ar anghenion, diddordebau a dyheadau dysgwyr eu hunain.

Dylai'r Rhaglen ymgorffori arferion pennu targedau Sgiliau Byw'n Annibynnol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth brif ffrwd yn dilyn ei chwblhau. Dylai'r Rhaglen Sylfaen ddilyn pedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol wrth bennu targedau sy'n seiliedig ar ddeilliannau, yn amserol ac yn cael eu harwain gan gyrchfan.

Mae'n debygol y bydd ar ddysgwyr angen lefel uwch o gymorth emosiynol a mewnbwn addysgol mewn perthynas â sgiliau cydnerthedd addasol, gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain, lles emosiynol, a sgiliau cymdeithasu i ymgysylltu ag addysg a datblygu strategaethau i'w rheoli eu hunain. Dylai meysydd nas achredir o fewn y Rhaglen gael eu cofnodi a'u cymedroli trwy ddulliau sicrhau ansawdd dibynadwy, megis RARPA.

Rhaid i'r Rhaglen ddilyn yr un strwythur sylfaenol â rhaglenni dysgu amser llawn eraill, sef:

***Craidd***

| | | |
|---|---|---|
| Ailsefyll TGAU (os yn briodol) | Neu | Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 1 neu 2 mewn Cyfathrebu<br>Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 1 neu 2 mewn Cymhwyso Rhif |

***Prif Gymhwyster***

| | | |
|---|---|---|
| Dyfarniad Atodol BTEC Lefel 1 Pearson mewn Twf a Lles Personol (Rhif Cymhwyster: 603/6124/4) | Neu | Dyfarniad Atodol BTEC Lefel 2 Pearson mewn Twf a Lles Personol (Rhif Cymhwyster: 603/6002/1) |

***Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant (CLIF)***

Unedau/modiwlau o ddewis faes galwedigaethol y dysgwyr ar gyfer dysgu amser llawn yn y flwyddyn academaidd nesaf.

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer y Rhaglen Sylfaen. Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Cod y Rhaglen*

Dylid defnyddio'r cod rhaglen canlynol:

**Rhaglen Sylfaen** 1401EXXB

## 7. Monitro a Deilliannau Dysgu

Bydd gan fonitro ac archwilio rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac i helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

### *Dull Monitro*

Bydd y dull o fonitro'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; a
- Deilliannau dysgu ar gyfer y rhaglen.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o fonitro yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl ar ddysgwyr ar Raglenni Sylfaen.

### *Cydymffurfio â Manylebau'r Rhaglen*

Bydd Medr yn defnyddio data LLWR i fonitro'r modd y cydymffurfir â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r data o setiau data'r rhaglen a gweithgareddau i wirio bod gofynion darparu'r rhaglen yn cael eu hateb.

### *Deilliannau Dysgu*

Mae cyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y Rhaglen Sylfaen ac yn hollbwysig i werthuso'r modd y darperir y rhaglen.

Y disgwyliad yw y bydd y mwyafrif llethol o ddysgwyr sy'n cwblhau'r Rhaglen Sylfaen yn llwyddiannus yn camu ymlaen i raglenni addysg bellach amser llawn.

### *Profion Archwilio*

Yn ychwanegol at y dull o fonitro a nodir uchod, bydd yr holl ddata a ddychwelir gan Sefydliadau'n ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol. O fewn hyn,

bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi yn y *Canllawiau Archwilwyr* i sicrhau bod archwilwyr allanol yn samplu dysgwyr sy'n gwneud Rhaglenni Sylfaen yn briodol.

## 8. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y fanyleb rhaglen hon, cysylltwch â Medr: Buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government